| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **21 HYDREF 2014** |
| **PWRPAS** | **DIWEDDARU’R PWYLLGOR AR Y PROSIECT CYDWEITHIO PENSIYNAU** |
| **TEITL** | **CYNLLUNIAU PENSIWN LYWODRAETH LEOL CYMRU – GWEITHIO GYDA’N GILYDD** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae’r Pwyllgor yn ymwybodol o’r prosiect a ymgymerwyd gan Is-grŵp Pensiynau Gymdeithas Trysoryddion Cymru a'r adroddiad a gynhyrchwyd yn Ebrill 2013 yn dilyn ymgynghoriad gyda chyflogwyr, cynrychiolwyr gweithwyr a phartïon eraill gyda diddordeb sydd yn argymell cyd-fuddsoddi fel y ffordd ymlaen. Danfonwyd ymateb i’r ymgynghoriad gan y Pwyllgor hwn yn dilyn ystyried y materion yng nghyfarfod y pwyllgor hwn ar 22 Mawrth 2013.

## 2. ADRODDIAD TERFYNOL

**2.1** Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- Cynhyrchu Achos Busnes llawn i weithredu dull buddsoddi cyffredin.
- Creu strwythur llywodraethu priodol ac ymatebol i yrru cynlluniau cydweithio'r dyfodol.
- Adeiladu ar y cydweithio presennol i wella, creu cysondeb ac effeithlonrwydd mewn gweinyddiaeth.

## 3. SEFYLLFA BRESENNOL

**3.1** Yn unol â’r adroddiad mae’r Bwrdd Prosiect Cydweithio wedi penderfynu dilyn y mater ymhellach a threfnu achos busnes manwl i adnabod sut yn ymarferol y gellir gweithredu dull buddsoddi cyffredin o’r fath a gwella’r arbedion a chostau ariannol y rhagwelir ynghyd ac unrhyw anawsterau ymarferol i’w goresgyn.

**3.2** Ymgymerwyd y proses caffael i benodi ymgynghorwyr ym mis Tachwedd 2013 a derbyniwyd tri ymateb. Ar y pwynt yma, daeth i’r amlwg bod nifer o ddiwygiadau ar gyfer yr LGPS yn cael eu hystyried gan DCLG. Gan fod cyfuno cronfeydd pensiwn yn cael ei ystyried, penderfynwyd gohirio’r broses caffael tan roedd cyfeiriad y Llywodraeth yn glir.

**3.3** Erbyn hyn mae’r Llywodraeth wedi penderfynu mai buddsoddi ar y cyd yw’r ffordd ymlaen yn hytrach na chyfuno cronfeydd. Mae’r Bwrdd Prosiect Cydweithio felly wedi penderfynu symud ymlaen a phenodi’r ymgynghorydd a dewiswyd. Ariannir

cost y penodiad hwn gan yr wyth gronfa bensiwn. Amcangyfrifir bydd angen i bob cronfa cyfrannu £8,500.

**3.4** Bydd canlyniad yr Achos Busnes yn cael ei adrodd i'r pwyllgor hon pan fydd wedi ei gwblhau. Bydd unrhyw gamau i'w cymryd fel canlyniad i'r adroddiad yn cael ei ystyried gan y pwyllgor hwn.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1** Gofynnir i'r pwyllgor cymeradwyo cyfraniad i gost yr Achos Busnes hyd at uchafswm o £8,500.